**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**RHEOLIADAU DEDDF AMRYWOGAETHAU PLANHIGION (DIWYGIO) 2026**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad offeryn statudol hwn o dan reol sefydlog (“RhS”) 30A.2. Mae RhS30A yn darparu bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o offerynnau statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2. Mae Rheoliadau Deddf Amrywogaethau Planhigion (Diwygio) 2026 (“y Rheoliadau”) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 25 Chwefror 2026. Maent i'w gweld yma:

The Plant Varieties Act (Amendment) Regulations 2026

3. Mae copïau o'r Rheoliadau a'r dogfennau cysylltiedig wedi eu gosod gerbron y Senedd heddiw ochr yn ochr â'r memorandwm hwn.

4. Mae ymrwymiad gwleidyddol i Lywodraeth y DU geisio cydsyniad Llywodraeth Cymru wrth wneud deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru mewn maes cymhwysedd datganoledig. Mae'r Farwnes Hayman, Gweinidog y DU dros fioddiogelwch, ffiniau ac anifeiliaid, wedi ysgrifennu i ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i gymhwyso'r Rheoliadau i Gymru. Gan fod y Rheoliadau yn ymwneud â rheol sefydlog 30A (cydsyniad mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU), ceisir cytundeb y Senedd hefyd.

## Crynodeb o'r Offeryn a'i amcan *(gofyniad RhS30A.4(i))*

5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi ‘varieties’ yn lle ‘variety’ ym mhob man y mae'n digwydd yn y diffiniad o “small farmer” yn adran 9(10)(b) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997. Mae'r diffiniad o “small farmer” yn gysylltiedig â'r eithriad yn adran 9(4) a thalu tâl teg i ddeiliaid hawliau bridwyr planhigion (math o eiddo deallusol). Bwriad y polisi oedd i'r elfen o'r eithriad “small farmer” yn adran 9(10)(b) fod yn gymwys i swm yr amrywogaethau a dyfir mewn ardal, nid i bob amrywogaeth a dyfir mewn ardal, a dyma yw bwriad y polisi o hyd.

6. Amcanion y Rheoliadau yw gwneud y diffiniad o “small farmer” yn gliriach fel ei fod yn cyd-fynd â bwriad y polisi, ei atal rhag cael ei gamddehongli a sicrhau bod y taliadau arfaethedig yn cael eu gwneud i ddeiliaid hawliau bridwyr planhigion a thrwy hynny gefnogi arloesedd a buddsoddiad mewn bridio planhigion.

7. Mae bridio planhigion yn hanfodol i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn modd cynaliadwy a mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Mae arloesi ym maes bridio planhigion yn arwain at

ddatblygu amrywogaethau newydd o gnydau a all fod yn fwy gwydn o ran straen amgylcheddol fel sychder, gwres, llifogydd, a phlâu a chlefydau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r amrywogaethau hyn a gafodd eu gwella nid yn unig yn helpu i gynnal a chynyddu cynnyrch cnydau o dan amodau hinsoddol newidiol ond hefyd yn lleihau'r angen am fewnbynnau cemegol, a thrwy hynny gefnogi arferion ffermio ecogyfeillgar. Mae buddsoddiad parhaus mewn bridio planhigion yn gonglfaen ar gyfer amaethyddiaeth gynaliadwy a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, gan sicrhau bod systemau bwyd yn parhau i fod yn gadarn wrth wynebu heriau yn y dyfodol.

8. Mae'r Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Y ddarpariaeth sydd i'w gwneud gan yr Offeryn y ceisir cydsyniad ar ei gyfer *(Gofyniad RhS30A.4(ii))***

9. Mae'r Rheoliadau (ac eithrio eu cymhwyso y tu hwnt i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r Rheoliadau yn diwygio adran 9(10)(b) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997. Mae planhigion, amrywogaethau a hadau yn faes datganoledig ac yn ymddangos fel eithriad yn Atodlen 7A (materion a gedwir yn ôl) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon *(Gofyniad RhS30A.4(iii))***

10. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer pwerau yn adran 14(2) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae amcanion y Rheoliadau yn cynnwys gwneud y diffiniad o “small farmer” yn gliriach fel ei fod yn cyd-fynd â bwriad y polisi a'i atal rhag cael ei gamddehongli. Nid yw'r Rheoliadau yn cyflwyno newid polisi ac felly mae adran 14(2) yn briodol gan fod y Rheoliadau yn dilyn yr “un amcanion neu amcanion tebyg”. Mae terfyn amser i'r pŵer: mae adran 14(9) yn darparu na chaniateir gwneud unrhyw reoliadau drwy arfer y pwerau yn adran 14 ar ôl 23 Mehefin 2026.

11. Fy marn i yw ei bod yn briodol rhoi effaith i'r diwygiadau hyn drwy'r Rheoliadau gan mai dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi eu cymhwyso i Gymru. Mae Hawliau Bridwyr Planhigion yn cael eu gweinyddu gan ‘Reolydd’ y Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion. Penodir y Rheolydd gan Weinidogion Cymru, y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae swyddogion o bob Llywodraeth yn gweithio o dan Fframwaith Cyffredin dros dro y DU ar Amrywogaethau a Hadau Planhigion. Mae'r ddarpariaeth y mae'r Rheoliadau yn ei diwygio yn Neddf 1997 yn rhychwantu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau wedi'i gysoni ar draws eu priod Lywodraethau ac mae'r dull diwygio hwn yn sicrhau cysoni'r gyfundrefn hawliau bridwyr planhigion yn amserol ar draws eu tiriogaethau.

12. Er na fydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, nodaf nad oedd Deddf 1997 ei hun wedi'i gwneud yn ddwyieithog.

**Goblygiadau ariannol**

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru o ran cydsynio i'r darpariaethau yn y Rheoliadau.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**27 Chwefror 2026**